ARCADIS Design & Consultancy for natural and built assets

DEWIS PRIFFORDD 1: LLWYBR Y DWYRAIN

Mae Dewis Priffordd 1 yn aliniad dwyreiniol a fyddai'n cysylltu o fan tua'r de o Gyffordd 34 yr M4 â'r A48 wrth Sycamore Cross. Byddai'r adrannau tua'r gogledd a'r de yn cynnwys gwelliannau ar y llinell. Byddai gweddill y llwybr rhwng y ddwy gyffordd oddi ar y llinell ac yn osgoi Pendoylan tua dwyrain y pentref.

Prif Nodweddion

Hyd y Ffordd Osgoi Newydd	5560m
Cydbwysedd Torri a Llenwi	Gwaredu 73,000m³
Effeithiau ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus	3 Phont 1 Ceuffos
Nifer y Strwythurau	2
Hyd y Gorlifdir yr Effeithir arno	1200m
Cost Gyfan	£81.028m
Costau Cynnal a Chadw	Yn uwch na'r llwybr i'r gorllewin o bosibl os oes angen stiltiau



Materion Allweddol

- Byddai'r llwybr yn osgoi cymunedau Pendeulwyn a Chlawdd Coch fel y maent ar hyn o bryd.
- Effeithir ar oddeutu saith eiddo gan y llwybr hwn fel y dangosir, yn amodol ar ddyluniad mwy manwl.
- Byddai'r llwybr yn croesi rhan o'r gorlifdir ar gyfer Afon Elái, sy'n golygu bydd angen ystyried sut mae delio ag unrhyw effeithiau llifogydd. Gellir ei adeiladu ar arglawdd gyda cheuffos draeniau neu efallai bod angen stiltiau (mae hyn wedi'i ychwanegu fel risg posibl o ran y gost).
- Byddai rhywfaint o effaith ar Goetir Hynafol, er bod yr aliniad yn ceisio lleihau'r effaith ar ymylau'r coetiroedd.
- Mae posibilrwydd lleoli rhywogaethau wedi'u hamddiffyn ar hyd y llwybr.
- Gallai nodweddion archeolegol dan y r arwyneb ychwanegu amser a chost ar unrhyw gynllun a gallant effeithio ar aliniadau llwybr.



Cyfyngiadau amgylcheddol



Cyfyngiadau llifogydd ac adeiladau â effeithir

Gwella Trafnidiaeth Strategol yn Amgylchynu Coridorau ar gyfer Cyffordd 34 yr M4 i'r A48 gan gynnwys Coridor Pendeulwyn

Cam Dau WelTAG: Achos Busnes Amlinellol

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG